**Cofnod o'r penderfyniadau a wnaed gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddydd Llun 19 Ionawr 2026**

| Rhif yr Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 1 | Presenoldeb ac Ymddiheuriadau | Cynghorwyr yn bresennol: Dylan Rees (Cadeirydd); Mark Young (Dirprwy Gadeirydd); Bryan Apsley; Tina Claydon; Paul Cunningham; Ann Davies; Chrissy Gee; Ian Hodge; Chris Hughes; John Brynmor Hughes (gadawodd am 09:48); Gareth R Jones; John Ifan Jones (gadawodd am 09:53); Charlie McCoubrey; Gwynfor Owen (gadawodd am 09:47); Beverley Parry-Jones; Arwyn Herald Roberts; Rondo Roberts; Gareth Sandilands<br>Dale Selvester; Gareth Williams; Antony Wren;<br><br>Ymddiheuriadau: Cynghorwyr: Carol Beard; Alan Hughes; Austin Roberts; Gareth A Roberts; Paul Rogers<br><br>Yn absennol: Cynghorwyr: Jeff Evans; Marc Jones.<br><br>Hefyd yn bresennol: PST Dawn Docx ; PSTC Helen MacArthur; PSTC Justin Evans; PSTC Anthony Jones; Rheolwr Ardal Lee Bourne; Dafydd Edwards, Trysorydd; Gareth Owens, Swyddog Monitro; Matt Powell, Dirprwy Swyddog Monitro; Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael; Steve Morris, Pennaeth TGCh; Llinos Evans, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol; Elin Hughes, Hyrwyddwr Diwylliant; Tom Weston, Hyrwyddwr Diwylliant; Tim Owen, Rheolwr Trawsnewid Gwasanaethau; Heledd Davies, Cyfieithydd; Lisa Allington, Gwasanaethau Aelodau. |
| 2 | Datganiadau o Fuddiant | Dim. |
| 3 | Hysbysiad o Faterion Brys | Dim. |
| 4 | Cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2025 | i) cymeradwyo cofnodion ATA o 20 Hydref 2025 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd. |

| Rhif yr Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 5 | Adroddiad y Cadeirydd | i) Nodi'r wybodaeth a roddwyd yn y papur. |
| 6 | Arolwg Teulu Tân ac Adroddiad Diweddariad Hyrwyddwyr Diwylliant | i) Nodi canfyddiadau cychwynnol yr Arolwg Staff Teulu Tân, gan gydnabod y cynnydd cadarnhaol a wnaed a'r meysydd allweddol sydd angen ffocws pellach, a chefnogi'r camau nesaf; a<br>ii) Nodi'r rhaglen welliannau sy'n mynd rhagddi a chefnogi'r camau nesaf a amlinellir yn yr adroddiad hwn gan yr hyrwyddwyr diwylliant. |
| 7 | Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys | i) Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys;<br>ii) Nodi bod y cydgytundeb peilot a lofnodwyd gan y PST ac Undeb y Brigadau Tân bellach ar waith yn llawn o 1 Ionawr 2026; a<br>iii) Nodi bod y cydgytundeb yn cael ei fonitro a'i adolygu'n barhaus, a bydd data pellach yn cael ei gyflwyno ynglŷn â'i berfformiad. |
| 8 | Pennu Cyllideb 2026/27 | i) Cymeradwyo canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2026/27;<br>ii) Cymeradwyo'r asesiad cynllunio ariannol cyfredol o ofyniad cyllideb refeniw o £54.375m a chyllideb gyfalaf o £6.661m ar gyfer 2026/27;<br>iii) Cymeradwyo'r cynnig i ddefnyddio £0.271m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer 2026/27; a<br>iv) Cymeradwyo cyfathrebu'r ardoll ariannol derfynol o 54.104m gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. |
| 9 | Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Ch2 2025/26 | i) Nodi'r gweithgarwch rheoli trysorlys a'r dangosyddion ariannol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2025 a 30 Medi 2025. |
| 10 | Achos Busnes Amlinellol Canolfan Hyfforddi Hwb Awen | i) Nodi cynnwys yr Achos Busnes Amlinellol;<br>ii) Cymeradwyo symud i ddatblygu Achos Busnes Llawn; a<br>iii) Cefnogi ymgysylltiad parhaus â Llywodraeth Cymru i sicrhau ariannu cyfalaf. |
| 11 | Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2024/25 | i) Cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2024/25 ar wefan y Gwasanaeth, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth. |

| Rhif yr Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 12 | Asesiad Perfformiad Blynyddol, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024/25 | i) Cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynyddol 2024/25 ar wefan y Gwasanaeth. |
| 13 | Alldro Dros Dro 2025–26 | i) Nodi’r sefyllfa alldro refeniw a ragwelir a'r llithriad cyfalaf a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, fel y manylir yn yr adroddiad;<br>ii) Nodi’r risgiau sy'n gysylltiedig â'r alldro dros dro a chydnabod bod y ffigurau a ragwelir yn yr adroddiad hwn yn ddarbodus; a<br>iii) Nodi’r symudiad arfaethedig o £0.548m i gronfeydd wrth gefn ar gyfer ad-daliad y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| 14 | Materion Brys | Dim. |